



Tirweddau Cymru Landscapes Wales

Telerau ac amodau cystadleuaeth Ffotograffiaeth Tirweddau Cymru

1. Nid oes tâl am gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon ac mae'n agored i bawb.
2. Gall pob person gyflwyno tri llun.
3. Manyleb llun –
 - Maint lleiaf – A4 297 x 210mm
 - 300 dpi
 - Landscape
 - Pixel size – 3508 x 2480 px
4. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, mae'r ymgeisydd yn nodi ei fod yn cytuno i ymrwymo i'r telerau a'r amodau hyn.
5. Ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am geisiadau na ddaw i law am ba reswm bynnag.
6. Yn eich cyflwyniad mae'n rhaid i chi gynnwys lle mae'ch llun wedi'i dynnu.
7. Rhaid i'r lluniau a gyflwynir fod yn lluniau mewn Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru, mewn Tirwedd Cenedlaethol yng Nghymru: Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Llŷn, Gŵyr neu Ddyffryn Gwy; neu mewn Parc Cenedlaethol yng Nghymru: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
8. Rydym yn neilltuo'r hawl i ganslo neu ddiwygio'r gystadleuaeth a'r telerau a'r amodau hyn heb rybudd. Bydd yr hyrwyddwr yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i'r gystadleuaeth.
9. Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw dydd Gwener, y 5ed o Fedi 2025 ac ar ôl y dyddiad hwn ni chaniateir unrhyw geisiadau pellach i'r gystadleuaeth.
10. Mae'r wobwr fel a ganlyn:
Bydd enillydd cyffredinol yn cael y cyfle i gynnwys ei lun ar glawr Calendr Tirweddau Cymru 2026 ac yn derbyn tocyn anrheg ffotograffiaeth.
11. Bydd yr enillwyr yn cael y cyfle i'w llun gael ei gynnwys yn y mis sy'n cyfateb i'r dirwedd honno yng Nghalendr Tirweddau Cymru 2026.
12. Dyma fydd y gwobrau, ac ni chynigir unrhyw arian parod na dewisiadau eraill. Nid yw'r gwobrau i'w trosglwyddo i eraill.
13. Bydd panel o bartneriaid Tirweddau Cymru yn dewis yr enillwyr a bydd eu penderfyniad yn derfynol.
14. Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i bob oed.
15. Mae'r enillydd yn cytuno i ddefnyddio ei enw a'i lun mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd, yn ogystal â'u cais. Bydd unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â'r enillydd neu unrhyw ymgeisydd arall yn cael ei ddefnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, ac felly ni fydd yn cael ei ddatgelu i drydydd parti heb ganiatâd yr ymgeisydd ymlaen llaw.
16. Rhaid i'r enillydd/enillwyr gydnabod eu buddugoliaeth cyn pen 7 diwrnod o gael gwybod eu bod wedi ennill, neu gellir ailddyrrannu'r wobwr i'r enillydd nesaf.
17. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a manylion cyswllt a roddwch yn cael eu defnyddio dim ond at ddibenion gweinyddu'r gystadleuaeth.
18. Nid yw'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sy'n uniongyrchol gysylltiedig â threfnu'r gystadleuaeth hon.